**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Mawrth, 24 Mehefin 2025**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Mercher, 25 Mehefin 2025. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Mercher, 2 Gorffennaf 2025. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Iau, 3 Gorffennaf 2025.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Cadeirydd), Neville Evans, Carwyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Jeff Evans (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol), Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Aled M. Jones, Derek Owen.

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd  Dyfed Wyn Jones

(10:00 y. b. tan 10:55 y. b.)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 22 Mai 2025 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Gorffennaf 2025 i Chwefror 2026 gyda'r newidiadau a** |

| | |
|---|---|
| | **amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gryfhau atebolrwydd a threfniadau blaen gynllunio** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Monitro'r Cerdyn Sgorio - Chwarter 4, 2024/25**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cytuno i'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 4 2024/25 a nodi'r meysydd o welliannau ynghyd â'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol. Roedd y rhain mewn perthynas ag Addysg (Môn Actif), Tai (Darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, a Thai Gwag), Economi (Contractau Angori Cwsmeriaid), Newid Hinsawdd (Ailgylchu Gwastraff Domestig) a Iechyd Cyffredinol y Cyngor (Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth).** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn adnabod a delio â meysydd sy'n tanberfformio o fewn y Cyngor.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Dogfen Gyflawni Blynyddol 2025/26**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd mabwysiadu'r Dogfen Gyflawni Blynyddol ar gyfer ei chyflawni yn ystod 2025/26.** |

| | |
|---|---|
| | |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo'r rhaglenni gwaith blynyddol ar gyfer 2025/26 er mwyn cyflawni disgwyliadau Cynllun y Cyngor dros y deuddeg mis nesaf.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Monitro'r Gyllideb Refeniw – Alldro 2024/25**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br>• **Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B a C yr adroddiad mewn perthynas ag alldro ariannol yr Awdurdod ar gyfer 2024/25.**<br>• **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2024/25 y manylir arnynt yn Atodiad CH.**<br>• **Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2024/25 yn Atodiadau D a DD.**<br>• **Nodi bod amcangyfrif o falansau cyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2025 yn £18.166m.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2024/25** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |